# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bryn Eithin Residential Care Ltd**

**30 Ffordd Llanrwst**
**Bae Colwyn**
**LL29 7YU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 9 Ebrill 2024.

09/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Bryn Eithin Residential Care Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Bryn Eithin Residential Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 25 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10/02/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth cynnes a thosturiol gan dîm o staff ymrwymedig. Maent yn cael gofal wedi'i gynllunio mewn modd amserol er mwyn cadw mor iach â phosibl. Mae'r cartref yn gynnes, yn lân ac yn daclus ac mae ganddo awyrgylch braf. Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'r bobl yn cael budd o waith gwella parhaus. Mae'r rheolwr yn weladwy, ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac y gwrandewir arnynt. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bodloni'r gofynion rheoliadol drwy ymweld â'r cartref yn rheolaidd, gan fesur ansawdd y gofal a roddir i'r bobl a sicrhau bod yr amgylchedd yn annog canlyniadau cadarnhaol iddynt.

## Llesiant

Caiff hawliau'r bobl eu hamddiffyn yn y cartref am fod ganddynt lais a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau o ddydd i ddydd. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r staff gofal am ddiogelu a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a darperir hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal diogel. Gwelsom fod y bobl yn gallu dewis eu prydau bwyd a'r hyn y maent am ei wneud yn ystod y dydd. Dywedodd un person wrthym y gall gael sgyrsiau yn ei iaith gyntaf, sef Cymraeg, am fod staff gofal yn y tîm sy'n gallu sgwrsio ag ef. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gwasanaeth yn ceisio recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Gwelsom staff yn siarad â'r bobl mewn modd cyfeillgar a pharchus. Gwelsom enghreifftiau o gydberthynas dda rhwng y bobl a'r staff a chlywsom chwerthin a cherddoriaeth yn chwarae yn y cartref. Mae'r cyfathrebu rhwng y staff yn dda a chaiff dewisiadau personol y bobl sydd wedi'u cofnodi yn eu cynllun gofal eu parchu. Ceir ardaloedd tawel i'r bobl fyfyrio, yn ogystal ag ardaloedd i'r bobl gymdeithasu os byddant yn dymuno gwneud hynny. Gwnaethom sylwi ar berson yn darllen llyfr mewn ardal dawel o'r cartref, a pherson arall yn mwynhau gwneud jig-so. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r adloniant sy'n cael ei drefnu yn y cartref ac yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth trin gwallt sy'n cael ei gynnig unwaith yr wythnos. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus iawn yn byw yn y cartref a'u bod yn cael gofal da. Gwnaethom ddarllen sawl cerdyn diolch gan deuluoedd ar hysbysfyrddau yn y cartref yn diolch i'r staff am eu gofal ystyriol.
Mae'r bobl yn gallu dewis eu prydau bwyd a ble yr hoffent eu bwyta. Mae'r ystafell fwyta yn olau, ac mae'r byrddau wedi'u gosod yn hyfryd â llieiniau, blodau a chyllyll a ffyrc. Dwedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd ac y gallant ddewis rhywbeth arall os na fyddant yn hoffi'r pryd sy'n cael ei gynnig. Mae'r bwydlenni'n amrywiol ac yn cael eu newid bob tymor. Mae byrbrydau a diodydd ar gael i'r bobl pan fydd eu hangen arnynt. Gwelsom fod y cogydd wedi ennill gwobr am brydau llysieuol ac y gellir darparu ar gyfer deietau arbennig. Gwelsom fod cynhwysion ffres yn cael eu dosbarthu i'r cartref yn rheolaidd a'u bod yn cael eu storio'n ofalus.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da gan dîm o staff llawn cymhelliant. Caiff y bobl eu hasesu cyn symud i'r cartref er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Gwelsom enghraifft o berson yn cael eiriolwr er mwyn cynnal ei hawliau. Mae'r staff gofal a'r rheolwr yn ymwybodol o'r gofynion o ran diogelu a'r protocolau lleol i sicrhau bod y bobl yn cael gofal diogel. Mae anghenion y bobl wrth wraidd eu cynllun gofal. Defnyddir y ddogfen "Dyma Fi" yn effeithiol i gofnodi dewisiadau ac arferion y bobl. Dangosodd y rheolwr a'r staff gofal eu bod yn adnabod y bobl yn eu gofal a'u teuluoedd yn dda, a'u bod yn cyfathrebu'n dda ac yn agored â nhw. Caiff ymweliadau ac apwyntiadau gofal iechyd eu rheoli'n ofalus, a chaiff canlyniadau a chyfarwyddiadau eu dogfennu. Gall y bobl gael cyngor gofal iechyd mewn modd amserol. Gall y bobl gael adolygiadau gan feddygon teulu, gwasanaethau deintyddol, gwasanaethau offthalmoleg, ciropodyddion a gweithwyr proffesiynol eraill i'w helpu i fod mor iach â phosibl. Caiff cwympiadau a digwyddiadau eu cofnodi'n briodol, a rhoddir asesiadau risg ar waith i geisio lliniaru risgiau pellach. Gwelsom fod y cynlluniau gofal personol a'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac wrth i gyflyrau'r bobl newid. Cedwir gwybodaeth yn ddiogel mewn cwpwrdd wedi'i gloi er mwyn sicrhau y caiff cyfrinachedd ei gynnal.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith yn y cartref ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth. Ni welsom unrhyw fylchau o ran llofnodion yng nghofnodion rhoi meddyginiaeth y bobl. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliad misol o siartiau'r cofnodion rhoi meddyginiaeth ac yn adolygu'r arferion storio ar archebu. Rhennir canlyniadau â'r staff gofal yn ystod y cyfarfod staff misol er mwyn annog arferion da. Cedwir meddyginiaethau yn ddiogel a cheir gwared ar feddyginiaethau heb eu defnyddio yn briodol. Cedwir trywydd archwilio da o'r meddyginiaethau sy'n cyrraedd ac yn gadael y cartref.  Rhoddir hyfforddiant a diweddariadau ar feddyginiaeth i'r staff gofal, ac asesir eu cymhwysedd. Dywedodd y rheolwr fod y fferyllfa leol yn darparu cymorth a hyfforddiant da, ac y gellir cael gafael ar bresgripsiynau i'r bobl mewn modd amserol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael gofal mewn amgylchedd dymunol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Caiff yr ystafelloedd eu glanhau a'u hailaddurno cyn i berson newydd symud i'r cartref. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau sy'n bwysig iddynt, gan eu helpu i deimlo'n gartrefol. Mae'r ystafelloedd wedi'u hawyru'n briodol ac maent yn fawr, yn lân ac yn daclus. Mae'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau yn hylan ac yn fodern, a gwelsom fod bath newydd â dyfais rheoli tymheredd a theclyn codi wedi cael eu gosod yn un o'r ystafelloedd ymolchi. Mae'r cyfleusterau yn union fel y'u disgrifir yn Natganiad o Ddiben y cartref ac maent yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid o 5, sef y sgôr uchaf posibl. Mae gerddi mawr i'r bobl gerdded o'u cwmpas ac eistedd ynddynt. Mae llwybrau'r gerddi a'r ardaloedd eistedd yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Mae'r gerddi mewn cyflwr da ac mae tŷ haul â decin wrthi'n cael ei adeiladu i'r bobl ei fwynhau.
Gall y bobl gael gafael ar y cyfarpar sydd ei angen ar gyfer eu gofal, ac mae'r cyfarpar hwn yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i wasanaethu. Caiff asesiadau a chofnodion iechyd a diogelwch y cartref eu hasesu'n aml a'u diweddaru ar gyfer gofal ac amgylchedd y bobl. Caiff gwiriadau cyfleustodau fel dŵr, nwy a thrydan eu hadolygu'n aml, a darparwyd tystysgrifau diogelwch i ni ar ein cais. Caiff gwiriadau tân eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi, a gweithredir ar argymhellion y gwasanaeth tân mewn modd amserol. Mae yswiriant indemniad y gwasanaeth yn gyfredol. Mae'r arferion hylendid a rheoli heintiau yn dda, ac mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Datganiad o Ddiben yn disgrifio'r gwasanaeth y mae'r bobl yn ei gael. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff gofal, sy'n cael eu diweddaru ac yn rhoi arweiniad i'r staff yn eu rôl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn siarad â'r bobl a'r staff yn rheolaidd, gan fonitro'r amgylchedd ar yr un pryd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw broblemau a bod y safonau'n cael eu cynnal. Caiff adroddiad ar ansawdd ei lunio yn dogfennu'r canfyddiadau yn unol â'r gofynion rheoliadol. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol ac y gall gael gafael ar hyfforddiant i'w gefnogi yn ei rôl. Mae polisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith os bydd eu hangen ar y bobl. Mae polisi chwythu'r chwiban ar gael i'r staff os oes angen. Gwelsom fod buddsoddiad parhaus yn cael ei wneud o ran yr amgylchedd a'r staff er mwyn sicrhau safonau byw a gofal da i'r bobl.
Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwr yn gefnogol iawn ac yn hawdd mynd ato. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wrth eu bodd yn gweithio yn y cartref a'u bod yn cael eu hyfforddi a'u goruchwylio'n dda. Dywedodd y staff wrthym fod safonau'r gofal yn dda iawn ac y byddent yn hapus i aelod o'u teulu gael gofal yng nghartref Bryn Eithin. Mae'r rhaglen hyfforddiant parhaus yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu rôl. Caiff y staff eu goruchwylio'n barhaus hefyd er mwyn eu cefnogi a sicrhau eu bod yn dilyn arferion da. Mae cofnodion y staff yn dangos arferion recriwtio da ac mae'r gwiriadau cyflogaeth perthnasol ar waith i sicrhau bod y staff yn addas i ofalu am oedolion sy'n agored i niwed.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Rhaid i'r staff gofal gael asesiad cymhwysedd blynyddol o'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymwyseddau mewn perthynas â rheoli a rhoi meddyginiaethau. | Cyflawnwyd |
| 36 | Rhaid i bob aelod o'r staff gael arfarniad blynyddol sy'n rhoi adborth ar ei berfformiad ac yn nodi meysydd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad i'w gefnogi yn ei rôl. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/06/2024